**Lle Gwag ar gyfer Rhiant-lywodraethwr yn Ysgol Gymraeg Bro Ogwr - Ionawr 2025**

**Pa rôl sydd gan Gorff Llywodraethu?**

Mae Corff Llywodraethu ein hysgol yn cynnwys Llywodraethwyr sy'n bobl o bob math a hwythau'n dod o amrywiaeth o wahanol gefndiroedd ac yn meddu ar ystod o wahanol sgiliau a phrofiadau. Mae'r Corff Llywodraethu'n darparu arweinyddiaeth ac atebolrwydd strategol. Mae'n goruchwylio perfformiad ac atebolrwydd ariannol yr ysgol, yn pennu targedau ar gyfer codi safonau cyflawniad addysgol, yn monitro cynnydd, yn cefnogi ac yn herio perfformiad, yn trafod polisi a chynlluniau datblygu ar gyfer y dyfodol ac yn arwain o ran rheolaeth strategol ar safle'r ysgol. Nid yw'n goruchwylio'r addysg y mae dysgwyr yn ei chael. Fel y cyflogwr, y Corff Llywodraethu sy'n recriwtio ac yn penodi'r holl aelodau o staff sy'n gweithio'n uniongyrchol i'r ysgol. Mae llywodraethwyr i gyd yn wirfoddolwyr sy'n gweithio gyda'i gilydd er budd yr ysgol a hwy yw'r ddolen gyswllt rhwng Bro Ogwr a'r gymuned y mae'n ei gwasanaethu. Fel ynadon neu aelodau o reithgor, mae gan lywodraethwyr ysgol hawl i amser rhesymol o'r gwaith i gyflawni eu dyletswyddau cyhoeddus, er y gall hyn fod yn ddi-dâl a'i fod yn amodol ar bolisïau Adnoddau Dynol unigol.

**Mae eich eisiau chi arnom!**

Y tymor hwn rydym yn hysbysebu lle gwag ar gyfer Rhiant-lywodraethwr a byddem wrth ein bodd i glywed oddi wrth unrhyw un sydd â diddordeb ym mherfformiad yr ysgol, y gallu i fwrw golwg wrthrychol ar faterion, profiad o weithio'n dda gydag eraill, yr hyder i ofyn cwestiynau ac ymuno yn y drafodaeth a pharodrwydd i wrando a ffurfio barnau gwybodus. Cynhelir cyfarfodydd y Corff Llywodraethu llawn yn dymhorol ar ddydd Llun o 16:30-18:15. Yn ogystal â mynychu cyfarfodydd llawn, gofynnir i lywodraethwyr fwrw golwg fanylach hefyd ar feysydd penodol sy'n rhan o waith yr ysgol a gellir gofyn i bob llywodraethwr ymuno ag is-bwyllgor a rhannu cyfrifoldeb am faes penodol fel llywodraethwr cyswllt. Gall rhai cyfarfodydd a digwyddiadau gael eu cynnal yn yr ysgol yn ystod y diwrnod ysgol arferol, er y bydd hyn yn cael ei drefnu gan ystyried argaeledd llywodraethwyr. Rhaid bod gan riant-lywodraethwyr blentyn neu blant yn mynychu'r ysgol ar adeg eu penodiad a dylent fod yn credu'n gryf yn y gymuned cyfrwng Cymraeg a bod ag ymrwymiad cryf iddi. Mae cyfnodau rhiant-lywodraethwyr yn y rôl yn rhychwantu 4 blynedd, ac wedi hynny byddai'n ofynnol i'r rhiant naill ai gamu i lawr neu gynnig ei (h)enw drachefn i gael ei (h)ail-ethol. Mae disgwyl i'r holl lywodraethwyr ddilyn y Cod Ymddygiad bob amser.

**Beth allwn ni ei gynnig?**

Rydym yn cynnig y cyfle i weithio gyda chymuned ein hysgol i sicrhau'r amgylchedd gorau posibl ar gyfer ein dysgwyr, ymdeimlad o gyflawniad trwy wneud gwahaniaeth a chyfle i ddatblygu neu gryfhau sgiliau rheoli strategol. Mae'n ofynnol i lywodraethwyr gwblhau hyfforddiant sefydlu ac ymwybyddiaeth gorfodol a chynigir cymorth DPP a mentora parhaus i helpu i adeiladu ar sgiliau presennol neu i ddatblygu rhai newydd. Mae croeso i ymgeiswyr a chanddynt ddiddordeb gysylltu â'r ysgol i gael rhagor o wybodaeth a/neu sgwrs anffurfiol am y rôl, cyn cyflwyno cais.

**Sut i gyflwyno cais**

Os hoffech gael eich ystyried ar gyfer eich ethol cyflwynwch yr wybodaeth ganlynol i'r ysgol erbyn **canol dydd ar ddydd Gwener 31ain Ionawr 2025** os gwelwch yn dda:

1. Eich Enw, Cyfeiriad, Cyfeiriad E-bost a Rhif Ffôn

2. Enw a Dosbarth Eich Plentyn

3. Datganiad byr **nad yw'n fwy na 100 o eiriau** a fydd yn cael ei gynnwys ar y ffurflen bleidleisio, os byddwn yn cael mwy o ddatganiadau o ddiddordeb nag sydd o leoedd ar gael ar y Corff Llywodraethu. Os mai felly y bydd hi, bydd CBS Pen-y-bont ar Ogwr yn trefnu etholiad ymhlith y rhieni. Sylwer, os byddwch yn mynd y tu hwnt i'r terfyn geiriau, mai dim ond y 100 o eiriau cyntaf fydd yn cael eu cynnwys ar y ffurflen. Bydd datganiadau'n cael eu cyfieithu i'r Gymraeg/Saesneg yn ôl y gofyn. Rhowch eich llofnod a'r dyddiad ar yr wybodaeth a anfonir gennych i'r ysgol os gwelwch yn dda.

Edrychwn ymlaen at glywed oddi wrthych!

Nik Dart, Cadeirydd y Llywodraethwyr

**Parent Governor Vacancy at Ysgol Gymraeg Bro Ogwr – January 2025**

**What role does a Governing Body have?**

Our school Governing Body is made up of Governors from all walks of life and with a range of different backgrounds, skills and experiences. The Governing Body provides strategic leadership and accountability. It oversees the financial performance and accountability of the school, sets targets for raising standards of educational achievement, monitors progress, supports and challenges performance, discusses policy and future development plans and leads the strategic management of the school site. It does not oversee the education that the learners receive. As the employer, the Governing Body recruits and appoints all members of staff working directly for the school. Governors are all volunteers who work together for the benefit of the school and are the link between Bro Ogwr and the community it serves. Like magistrates or members of a jury, school governors have a right to reasonable time off work for their public duties, although this may be unpaid and is subject to individual HR policies.

**We want you!**

This term we are advertising a Parent Governor vacancy and would be delighted to hear from anyone who has an interest in the performance of the school, the ability to look at issues objectively, experience of working well with others, the confidence to ask questions and join in debate and a willingness to listen and make informed judgements. Full Governing Body meetings are held termly on a Monday from 16:30 – 18:15. As well as attending full meetings, governors are also asked to look at specific areas of the school's work in more detail and each governor may be asked to join a sub-committee and have a shared link area of responsibility. Some meetings and events will be held in school during the normal school day, although this will be arranged with governor availability in mind. Parent governors must have a child or children attending the school at the time of their appointment and should have a strong belief in and commitment to the Welsh medium community. Terms of office for parent governors are 4 years, at which time the parent would be required to step down or re-stand for election. All governors are expected to follow the Code of Conduct at all times.

**What can we offer?**

We offer the opportunity to work with our school community to ensure the best possible environment for our learners, a sense of achievement in making a difference and a chance to develop or strengthen skills in strategic management. Governors are required to complete mandatory induction and awareness training and ongoing CPD and mentoring support is offered to help build on existing skills or to develop new ones. Interested candidates are welcome to contact the school for further information and/or an informal discussion about the role, before submitting an application.

**How to submit an application**

If you would like to be considered for election please submit the following information to the school by **midday on Friday 31st January** 2025:

1. Your Name, Address, Email Address and Telephone Number

2. Your Child's Name and Class

3. A short statement of **no more than 100 words** which will be included on the ballot form, should we receive more expressions of interest than there are spaces available on the Governing Body. Should this be the case, BCBC will arrange a parental ballot. Please note if you exceed the word limit that only the first 100 words will be included on the form. Statements will be translated into English/Welsh as required. Please sign and date the information you send to the school.

We look forward to hearing from you!

Nik Dart, Chair of Governors